OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 57

# Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2019

## RHAN 3

### Ceffylau sy'n byw o dan amodau gwyllt neu led-wyllt

**Eithriadau mewn cysylltiad â cheffylau gwyllt neu led-wyllt penodol**

**16.**—(1) Mae'r rhanddirymiad yn Erthygl 13 yn gymwys mewn perthynas â cheffylau—

(a) a nodir yn y rhestrau a gedwir gan Gymdeithasau Gwella Merlod Mynydd Cymru; neu

(b) a nodir yn y rhestrau a gedwir gan Gymdeithas Merlod y Carneddau.

(2) At ddibenion Erthygl 13, fel y'i darllenir gydag Erthygl 43(3), yr ardaloedd ("ardaloedd dynodedig") a ddiffinnir gan Weinidogion Cymru ac sy'n cynnwys ceffylau gwyllt neu led-wyllt nad oes angen eu hadnabod â dogfennau adnabod tra byddant yn aros o fewn yr ardaloedd dynodedig yw'r ardaloedd hynny a hysbyswyd gan Weinidogion Cymru i'r Comisiwn ar 17 Medi 2009.

(3) At ddibenion Erthygl 13(1), nid oes angen i geffylau gwyllt neu led-wyllt a drosglwyddir o dan oruchwyliaeth swyddogol o un o'r rhestrau a ddisgrifir ym mharagraff (1) i'r rhestr arall a ddisgrifir ym mharagraff (1) gael eu hadnabod â dogfennau adnabod.

(4) Rhaid i geffylau gwyllt neu led-wyllt sy'n byw mewn ardal ddynodedig gael eu hadnabod â dogfen adnabod pan ddechreuir eu defnyddio at ddibenion domestig.

**Gofyniad ynghylch dogfen adnabod a thrawsatebydd i geffylau gwyllt neu led-wyllt a drinnir â chynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol**

**17.** Os trinnir ceffyl gwyllt neu led-wyllt sydd heb ddogfen adnabod mewn ardal ddynodedig ag unrhyw gynnyrch meddyginiaethol milfeddygol, rhaid i'r person cyfrifol sicrhau bod gan y ceffyl ddogfen adnabod a'i fod yn cael ei fewnblannu â thrawsatebydd—

(a) yn unol â Rheoliad yr UE; a

(b) o fewn 30 niwrnod ar ôl y driniaeth.

**Ceffylau gwyllt a lled-wyllt: gofyniad ynghylch dogfen adnabod i symud o ardal ddynodedig**

**18.** Yn ddarostyngedig i reoliad 19, ni chaiff y person cyfrifol symud ceffyl gwyllt neu led-wyllt sydd heb ddogfen adnabod allan o ardal ddynodedig.

**Eithriad i'r gofyniad ynghylch dogfen adnabod: ceffylau gwyllt neu led-wyllt a symudir am resymau lles neu i'w cigydda**

**19.**—(1) Caiff y person cyfrifol symud ceffyl gwyllt neu led-wyllt allan o ardal ddynodedig heb ddogfen adnabod—

(a) os yw'r ceffyl yn cael ei symud allan o'r ardal ddynodedig dros dro ac am resymau lles; neu

(b) os yw'r ceffyl—

(i) yn llai na 12 mis oed a chanddo sêr deintyddol gweledol ar y blaenddannedd ochrol dros dro;

(ii) yn cael ei symud yn uniongyrchol o'r ardal ddynodedig y'i ganed ynddi i le i gael ei gigydda (boed ar gyfer ei fwyta gan bobl ai peidio);

(iii) heb gael ei drin o'r blaen ag unrhyw gynnyrch meddyginiaethol milfeddygol; a

(iv) â sticer a ddyroddwyd gan gorff dyroddi wedi ei osod arno cyn iddo ymadael â'r ardal ddynodedig, ac mae'n rhaid bod y sticer wedi ei farcio â rhif adnabod unigryw a'r dyddiad y cafodd ei osod ar y ceffyl.

(2) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau bod ceffyl sy'n syrthio o fewn paragraff (1)(b) yn cael ei gigydda o fewn 7 niwrnod ar ôl y dyddiad a welir ar y sticer.

### Gofynion ynglŷn â cheffylau gwyllt neu led-wyllt 12 mis oed neu drosodd a symudir i'w cigydda

**20.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i geffyl gwyllt neu led-wyllt—

(a) sy'n 12 mis neu drosodd; a

(b) sy'n cael ei symud o ardal ddynodedig i le i gael ei gigydda (boed ar gyfer ei fwyta gan bobl ai peidio).

(2) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau bod gan y ceffyl (yn ychwanegol at ddogfen adnabod) sticer a ddyroddwyd gan gorff dyroddi wedi ei osod arno cyn iddo ymadael â'r ardal ddynodedig, ac mae'n rhaid bod y sticer wedi ei farcio â rhif adnabod unigryw a'r dyddiad y cafodd ei osod ar y ceffyl.

(3) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau bod ceffyl sy'n syrthio o fewn paragraff (1) yn cael ei gigydda o fewn 7 niwrnod ar ôl y dyddiad a welir ar y sticer.

### Gofynion ynglŷn â cheffylau gwyllt neu led-wyllt a symudir heblaw i'w cigydda

**21.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i geffyl gwyllt neu led-wyllt sydd—

(a) o unrhyw oedran; a

(b) yn cael ei symud o ardal ddynodedig i le arall (y "cyrchnod crynhoi") at ddiben heblaw cigydda.

(2) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau bod gan y ceffyl (yn ychwanegol at ddogfen adnabod) sticer a ddyroddwyd gan gorff dyroddi wedi ei osod arno cyn iddo ymadael â'r ardal ddynodedig, ac mae'n rhaid bod y sticer wedi ei farcio â rhif adnabod unigryw a'r dyddiad y cafodd ei osod ar y ceffyl.

(3) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau bod ceffyl sy'n syrthio o fewn paragraff (1) yn cyrraedd ei gyrchnod crynhoi o fewn 7 niwrnod ar ôl y dyddiad a welir ar y sticer.

(4) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau bod trawsatebydd yn cael ei fewnblannu yn y ceffyl cyn diwedd y cyfnod o 30 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r ceffyl yn cyrraedd y cyrchnod crynhoi.

(5) Heblaw dros dro neu am resymau lles, rhaid i'r person cyfrifol sicrhau nad yw'r ceffyl yn cael ei symud allan o'r cyrchnod crynhoi nes bod y trawsatebydd wedi ei fewnblannu.